28/03/14

Brîff UCAC Briefing

# Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Addysg Cynradd Cyfrwng Cymraeg


## Summary

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deisebau am ofyn barn UCAC ynglŷn a deiseb sy'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob ysgol gynradd yng Nghymru yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.


### Gweledigaeth Llywodraeth Cymru

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg wedi'i gosod yn glir.

Mae'r **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** (2010) yn datgan y weledigaeth ganlynol:

> "Cael system addysg a hyfforddiant sy'n... sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle." (t.4)

Mae Strategaeth y Gymraeg, **Iaith Fyw: Iaith Byw** (2012) yn amlinellu gweledigaeth fel a ganlyn:

> "Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru yw ein gweledigaeth....
>
> Bwriad y strategaeth hon yw camu tuag at ein nod hirdymor...sef 'sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd'...Rydym am weld:
>
> - cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac sy'n ei defnyddio
> - cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith
> - mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgìl defnyddiol mewn bywyd modern
> - sefydlogi sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau (t.14)

Ymhellach i'r weledigaeth gyffredinol, mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn esbonio'r mecanwaith orau ar gyfer meithrin dwyieithrwydd a rhugldeb yn y Gymraeg:

> "2.11 Addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin dinasyddion dwyieithog y dyfodol." (t.7)
>
> "2.13 Derbynnir yn gyffredinol y dylai o leiaf tua 70% amser y cwricwlwm fod drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i ddysgwyr feistroli'r iaith yn ddigon cadarn i'w galluogi i'w defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn hyderus ac yn rhugl." (t.8)

Mae UCAC yn cydsynio'n llwyr â gweledigaeth y Llywodraeth. Credwn yn gryf iawn mewn rhoi cyfle cyfartal i bob dysgwr yng Nghymru i ddod yn rhugl yn y Gymraeg; mae hynny yn ei dro yn sicrhau bod cydraddoldeb a chyfle cyfartal gan bawb wrth ymgeisio am swyddi ble mae'r Gymraeg yn ofynnol neu'n ddymunol.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth y Llywodraeth ei hun, yn ogystal â ffigyrau Cyfrifiad 2011, yn dangos nad yw'r camau gweithredu y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd ar hyn o bryd yn cael effaith ddigonol. Yn ôl Adroddiad Blynyddol 2012-13 ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:

> "...er gwaethaf yr holl weithgaredd hwn, ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn erbyn targedau'r strategaeth. Er enghraifft, rydym yn annhebygol o weld 25 y cant o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015."

Mae'n ymddangos i UCAC bod y syniad o sicrhau bod pob ysgol gynradd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ffordd uniongyrchol iawn o ymgyrraedd at dargedau'r Llywodraeth mewn perthynas â'r Gymraeg. Wedi'r cyfan, dyma'r oedran pan mae modd dysgu ieithoedd bron yn ddiymdrech, o fewn yr awyrgylch a gyda'r addysgeg gywir.

Wrth gwrs, mae materion ymarferol y mae'n rhaid eu hystyried.

**Nid oes sgiliau ieithyddol digonol o fewn y gweithlu addysg ar hyn o bryd i gyflawni'r nod.**

Byddai angen prysuro ac ehangu'r mesurau sydd eisoes ar waith megis y Cynllun Sabothol, cyrsiau gloywi iaith ac adeiladu hyder, a chefnogaeth i staff gan Athrawon y Gymraeg mewn Addysg. Byddai gofyn gwella dulliau cynllunio'r gweithlu, a gwneud newidiadau i Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

**Ni fyddai pob rhiant yn fodlon bod eu plant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.**

Byddai angen sicrhau bod rhieni, a llywodraethwyr, yn derbyn gwybodaeth am werth a phwysigrwydd dwyieithrwydd, yn ogystal â sicrwydd nad yw dysgu'r Gymraeg yn amharu ar y gallu i ddatblygu sgiliau yn y Saesneg.

Un ffordd bosib o fynd i'r afael â'r problemau ymarferol uchod fyddai gweithio dros gyfnod tuag at sicrhau:

- **y darperir y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob lleoliad**; mae adroddiad Gweithgor y Cyfrifiad yn Sir Gaerfyrddin, a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yn argymell 'y dylai pob ysgol gynradd Saesneg dros gyfnod o amser gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg'.
- **bod nifer cynyddol o bynciau'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**, gan ddechrau gydag un pwnc mewn ysgolion sy'n gyfrwng Saesneg ar hyn o bryd; mae 2 grŵp clwstwr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi bod yn peilota model o'r fath (un yn y De-ddwyrain, a'r llall yn y Gogledd-ddwyrain); mae'n siŵr y gallai'r Adran Addysg a Sgiliau ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhain. Yn ogystal, mae cryn brofiad gan Gyngor Sir Ceredigion o ran symud ysgolion 'ar hyd y continwwm iaith'.

**Mae UCAC yn fwy na pharod i ddarparu rhagor o wybodaeth, petai'r Pwyllgor yn dymuno hynny.**

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru